## Galliard EnsembleGalliard Ensemble

Gynt yn Artistiaid y Genhedlaeth Newydd y BBC, mae'r Galliard Ensemble wedi ennill ei blwy yn un o grwpiau siambr blaenllaw Prydain, a chanddo repertoire yn amrywio o Mozart a Beethoven i Berio a Birtwistle.

Bellach ar ei ddegfed flwyddyn ar hugain, perfformiodd yr ensemble mewn llawer o oedfannau a gwyliau blaenllaw'r byd, yn cynnwys Wigmore Hall, South Bank Centre, Bridgewater Hall, Sage Gateshead ac yn y BBC Proms.

Perfformiodd hefyd ym Mhortiwgal, yn Sbaen, Ffrainc, Iwerddon a Slofenia ac fe'i darlledir yn aml ar BBC Radio 3 ac ym mhedwar ban byd.

Mae'r Galliard Ensemble yn adnabyddus am ei arddull berfformio amryddawn, ddifyr ac arbennig a daeth clod yn eang i ran ei recordiadau: mae'r *Sunday Times*, *BBC Music Magazine*, *Gramophone*, a BBC Radio 3 i gyd wedi dewis CD gan Galliard Ensemble yn "eithriadol" neu'n Ddewis y Beirniaid.

Cydweithiodd yn glòs â llawer o gyfansoddwyr cyfoes blaenllaw, gan gynnwys György Ligeti a chyda Syr Harrison Birtwistle, ar ei bumawd *Five Distances* (i'w berfformiad yn y BBC Proms) a arweiniodd at ei CD arobryn o gerddoriaeth siambr Birtwistle i chwythbrennau.

Yn 2013 rhedodd y 'Galliard Anniversary Composition Competition' i nodi ei ugeinfed flwyddyn.

Rhyddheir ei recordiad diweddaraf, *From the Beginning*, yn hydref 2023 i nodi ei ddengmlwyddiant ar hugain.

Mae'r Galliard Ensemble yn frwd dros ddod â cherddoriaeth i gynulleidfa amrywiol, o sylweddoli'r effaith gadarnhaol ar ddysgu a datblygiad personol all dod yn sgil cerddoriaeth. Mae ei waith addysgol yn amrywio o gyngherddau i blant i ddosbarthiadau meistr mewn conservatoires a phrifysgolion blaenllaw megis Royal Northern College of Music, Prifysgol Caerdydd, Trinity Laban, ac yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

### Bywgraffiadau Unigol

**<u>Kathryn Thomas (Ffliwt)</u>**



Llun gan: Pip Bacon @ Purple Raspberry

Un o raddedigion y Royal Academy of Music ydi Kathryn Thomas lle'r astudiodd gyda Sebastian Bell. Wedyn fe'i gwnaed yn Gysylltai'r Royal Academy of Music am ragoriaeth yng ngalwedigaeth cerddoriaeth. Mae Kathryn yn ddatgeiniad ac yn gerddor siambr sefydledig mewn oedfannau'n cynnwys y Wigmore Hall, y South Bank Centre, Bridgewater Hall, ac mewn gwyliau'n cynnwys y BBC Proms, Cheltenham, Two Moors a Llanandras. Dyfarnwyd i'w recordiadau CD, yn unawdydd a chyda'r Galliard Ensemble, Ddewis y Golygydd *Gramophone*, CD yr Wythnos *The Observer*, a Dewis y Beirniaid yn *BBC Music Magazine*. Rhoddwyd canmoliaeth arbennig gan gylchgrawn

*Gramophone*, *The Times* a *Record Review* BBC Radio 3. Mae Kathryn yn neilltuol o gydnaws â cherddoriaeth gyfoes a gweithiodd gyda chyfansoddwyr o fri a rhoi llawer o premières byd a premières Prydain. Gweithiodd hefyd gyda cherddorfeydd yn cynnwys y London Sinfonietta, New Queen's Hall Orchestra, Royal Philharmonic Orchestra, Theatr Gerddoriaeth Cymru a City of London Sinfonia ac mae'n ymddangos yn rheolaidd yn brif chwaraewr gwadd gyda'r London Concert Orchestra. Ymhlith ei pherfformiadau concerto mae gweithiau gan Ibert, Honegger, Arnold, Bach, Rawsthorne, Barber, Mozart, Telemann, Cecilia McDowall a Christopher Gunning. Mae Kathryn yn perfformio ffliwt roc gyda'r band roc blaengar arobryn Hats Off Gentlemen It's Adequate.

**Owen Dennis (Obo)**



Llun gan: Pip Bacon @ Purple Raspberry

Astudiodd Owen Dennis Fathemateg yng Ngholeg Corpus Christi, Caergrawnt a graddio â gradd ddosbarth cyntaf ym 1995. Wedyn astudiodd yn y Royal Academy of Music gyda Douglas Boyd ac yn Conservatoire Rotterdam gydag Emanuel Abbuhl ac ennill gwobr Leila Bull am yr obo yn ogystal â Rownd Derfynol Chwyth yr Urdd Dramor Frenhinol 1999. Gyda'r Galliard Ensemble, rhyddhaodd Owen CDiau lawer gan gynnwys recordiad cyntaf *An Interrupted Endless Melody* Birtwistle i'r obo a'r piano. Yn un o Artistiaid y Genhedlaeth Newydd BBC Radio 3, perfformiodd Owen *Sinfonia Concertante* Mozart gyda'r BBC Symphony Orchestra a sawl darllediad byw, yn neilltuol *Metamorphoses after Ovid* Britten i'r obo solo yn y BBC Proms. Yn ogystal â'i gerddoriaeth siambr mae'n chwarae'n annibynnol gyda'r City of London Sinfonia, y London Mozart Players a'r London Sinfonietta. Mae Owen yn dal i ddatblygu ei fathemateg a chwblhaodd MSc mewn 'Intelligent and Adaptive Systems' ym Mhrifysgol Sussex yn 2017, a arweiniodd at brosiectau ymchwil i ragfarn rhywedd a dadansoddeg ragfynegol mewn addysg.

**Richard Bayliss (Corn)**



Llun gan: Pip Bacon @ Purple Raspberry

Mae Richard Bayliss yn berfformiwr rheolaidd gyda llawer o ensembles, cerddorfeydd siambr a cherddorfeydd symffoni blaenllaw gwledydd Prydain, gan gynnwys Cerddorfeydd y Royal Philharmonic, London Philharmonic, Philharmonia a'r BBC, a pherfformiodd yn brif chwaraewr gwadd gyda'r Royal Opera House, Cerddorfa Siambr yr Alban, Cerddorfa Radio Norwy, Gulbenkian Orchestra a Cherddorfa Symffoni Taipei. Yn unawdydd, perfformiodd Richard gyda'r BBC Symphony Orchestra, Academy of St Martin-in-the-Fields a Cherddorfa Symffoni Taipei. Mae gan Richard ddiddordeb brwd erioed mewn cerddoriaeth gynnar ac, yn chwaraewr y corn

naturiol, mae'n brif chwaraewr gyda'r Gabrieli Consort and Players, a pherfformiodd yn brif chwaraewr gwadd gyda'r English Baroque Soloists, London Handel Orchestra, Academy of Ancient Music, Hanover Band, a'r Orchestra of the Age of Enlightenment. Mae Richard hefyd yn berfformiwr rheolaidd yn y West End, wedi dal llefydd gyda sioeau lawer gan gynnwys *Shrek*, *The Sound of Music* a *Jesus Christ Superstar*, ac mae'n ddirprwy ar lawer o ddramâu cerdd y West End.

**<u>Helen Storey (Basŵn)</u>**

Astudiodd Helen yn y Purcell School of Music cyn mynd ymlaen â'i hastudiaethau gydag ysgoloriaethau i'r Royal Academy of Music a'r Hochschule für Musik yn Fienna, yn astudio gyda John Orford, Rachel Gough, Milan Turkovic a David Chatterton. Ar ôl gweithio'n annibynnol am rai blynyddoedd daeth Helen i swydd yn y Royal Philharmonic Orchestra lle mae'n aelod ers un mlwydd ar hugain, ac mae hefyd yn cael blas ar weithio gyda'r tîm addysg Resound sy'n mynd â cherddorion y RPO i ysgolion, ysbytai, canolfannau dydd a chlybiau ieuenctid. Mae'n dal i weithio'n annibynnol gyda grwpiau megis y London Symphony Orchestra, Royal Opera House, Orchestra of the Age of Enlightenment ac English National Opera ochr yn ochr â'i llefydd yn y RPO a'r Galliard Ensemble. Daeth Helen yn aelod o'r staff proffesiynol yn y Guildhall School of Music and Drama yn Llundain yn 2010 lle mae'n dysgu myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn ogystal â hyfforddi cerddoriaeth siambr. Yn fwy diweddar hyfforddodd Helen adran faswnau'r National Youth Orchestra.